# Trwyddedu teledu lleol

## Cyflawni Ymrwymiadau Rhaglennu

### Cyflwyniad

Yn 2012, cafodd trefn drwyddedu newydd ei chreu ar gyfer gwasanaethau teledu lleol, gyda'r nod o sicrhau bod cynnwys lleol yn cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn yr ardal neu'r gymdogaeth y mae'r gwasanaethau'n cael eu trwyddedu ar ei chyfer. Mae'r amcanion hyn yn seiliedig ar y meini prawf ar gyfer gwasanaeth teledu digidol lleol ('L-DTPS') sydd wedi'u nodi mewn statud, yn ogystal â'r ymrwymiadau rhaglennu sy'n rhan o bob trwydded L-DTPS. Mae'r ymrwymiadau rhaglennu yn adlewyrchu sut mae'r trwyddedai wedi dweud y bydd yn cyflawni'r meini prawf statudol, naill ai yn ei gais am drwydded neu fel y cytunwyd arno gydag Ofcom ar ôl cyflwyno cais i'w newid.

Y llynedd, cynhaliodd Ofcom ymarferiad monitro i ddeall sut mae trwyddedeion yn diwallu eu hymrwymiadau rhaglennu ar hyn o bryd. Roedd Ofcom hefyd wedi nodi rhai arferion a phrosesau rhaglennu sydd wedi ein harwain i anfon y nodyn atgoffa hwn at drwyddedeion am y canllawiau roeddem wedi'u cyhoeddi sy'n nodi ein disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau teledu lleol.

### Y broses adnewyddu ar gyfer trwyddedau L-DTPS yn y dyfodol agos

Bydd y trwyddedau ar gyfer pob un o'r 34 o wasanaethau teledu lleol sydd ar waith ar hyn o bryd ledled y DU yn dod i ben ar 25 Tachwedd 2025.  Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bwriad i gyflwyno proses amodol i adnewyddu trwyddedau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom ystyried perfformiad y trwyddedai, a dim ond adnewyddu os yw'n fodlon y bydd y trwyddedai yn cyflawni ei rwymedigaethau rheoleiddiol yn ystod cyfnod nesaf y drwydded.[1] Cyn y broses honno, mae'n bwysig bod trwyddedeion yn adolygu eu proses raglennu bresennol yng ngoleuni ein canllawiau, er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu hymrwymiadau rhaglennu ac yn darparu gwasanaeth sy'n bodloni'r meini prawf statudol.

### Fframwaith rheoleiddio Ofcom

Mae'r fframwaith statudol ar gyfer dyfarnu trwyddedau i gael gafael ar sianeli teledu lleol - a'r rhwymedigaethau sydd i'w cyflawni gan drwyddedeion - wedi'u nodi yn Neddf Darlledu 1990, Deddf Darlledu 1996, a Deddf Cyfathrebiadau 2003 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gwasanaethau Rhaglenni Teledu Digidol Lleol 2012 ('y Gorchymyn').

Mae Erthygl 3 o'r Gorchymyn yn nodi'r meini prawf sy'n nodweddu gwasanaeth L-DTPS. Dylai'r trwyddedeion fodloni eu hunain bod y gwasanaeth maent yn ei gynnig yn bodloni'r meini prawf hyn,

[1] https://www.gov.uk/government/consultations/consultation-on-the-renewal-of-local-tv-licences/outcome/government-response-to-the-consultation-on-the-renewal-of-local-tv-licences

fel y nodir yn eu hymrwymiadau rhaglennu. Yn benodol, dim ond ar gyfer derbyniad mewn ardal neu leoliad penodol y dylai'r gwasanaeth fod, a rhaid iddo wneud y canlynol:

- diwallu anghenion yr ardal neu'r gymdogaeth honno;[2]
- ehangu neu fod yn debygol o ehangu'r amrywiaeth o raglenni teledu sydd ar gael, er mwyn i bobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno eu gwylio;[3]
- cynyddu neu fod yn debygol o gynyddu nifer ac amrywiaeth y rhaglenni am yr ardal neu'r gymdogaeth honno, neu'r rhaglenni sydd wedi'u creu yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno, a gwneud yn siŵr bod y rhaglenni hynny ar gael i'w gwylio;[4]
- cynnwys amrywiaeth o raglenni sy'n hwyluso dealltwriaeth ddinesig a dadleuon teg a gwybodus, a hynny drwy roi sylw i newyddion a materion cyfoes lleol, adlewyrchu bywydau a phryderon cymunedau, a dangos diddordebau a thraddodiadau yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno. Hefyd, cynnwys deunydd sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu gwylwyr, a sicrhau nad yw'r deunydd ar gael fel arall drwy wasanaeth rhaglenni teledu digidol ledled y DU.[5]

Yn ein datganiad, *Trwyddedu Teledu Lleol*, yn 2012 ("y datganiad"), fe wnaethom roi arweiniad ynghylch y mathau o gynnwys ac amserlennu rydym yn eu disgwyl mewn gwasanaethau teledu lleol yng ngoleuni'r meini prawf hyn.[6]

## Cynnwys newyddion lleol

Fe wnaethom ddweud yn y datganiad "*mae ymchwil ar gynulleidfaoedd yn dangos yn gyson mai newyddion yw'r math o gynnwys lleol sy'n cael ei werthfawrogi fwyaf ar draws y DU, ac mae'n flaenoriaeth polisi glir gan y Llywodraeth y dylai hyn fod yn ganolog i'r gwasanaethau lleol*".[7]

Er ein bod yn cydnabod y bydd sawl math a dull derbyniol ar gyfer darparu cynnwys newyddion er budd y gynulleidfa leol, dylai newyddion lleol barhau i fod yn ganolog i wasanaethau teledu lleol a chael eu targedu'n ddigonol at ddarparu ar gyfer chwaeth, diddordebau ac anghenion rhai neu'r holl gymunedau gwahanol sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal y mae'r drwydded berthnasol yn ei gwasanaethu.

Caiff trwyddedeion eu hatgoffa'n benodol o'r canllawiau canlynol yn ein Datganiad:

---

[2] Erthygl 3(2)(b). Mae erthygl 3(3) yn darparu gwybodaeth bod rhaid cymryd gwasanaeth i ddiwallu anghenion ardal neu gymdogaeth os, a dim ond os, yw'n gwneud y canlynol:

- y bydd ei ddarpariaeth yn dod â manteision cymdeithasol neu economaidd i'r ardal neu'r gymdogaeth honno, neu i gategorïau gwahanol o bersonau sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno; neu
- ei fod yn darparu ar gyfer chwaethau, diddordebau ac anghenion rhai neu bob un o'r disgrifiadau gwahanol o bersonau sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'r gymdogaeth (gan gynnwys, yn benodol, chwaethau, diddordebau ac anghenion sy'n arbennig o berthnasol yng ngoleuni'r disgrifiadau o bersonau sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal).

[3] Erth. 3(2)(c)

[4] Erth. 3(2)(d)

[5] Erth. 3(5)(a)-(c)

[6] I weld ein canllawiau terfynol sy'n ymwneud â newyddion a materion cyfoes, gweler paragraff 6.30 ar dudalen 68 y Datganiad

[7] Paragraff 6.25, tudalen 68

- Mewn perthynas â chynnwys newyddion cenedlaethol neu newyddion rhwydweithiol: "Gan fod y drwydded ar gael ar gyfer gwasanaeth teledu lleol, newyddion lleol a ddylai fod yr elfen bwysicaf o ddarpariaeth newyddion...Dylai Bwletinau geisio adlewyrchu buddiannau a phryderon y rheini sy'n byw yn yr ardal...Ni fyddai lleoleiddio newyddion ar draws y DU (ee, drwy gynnal cyfweliadau vox pop (rhoi llais i'r bobl) neu fewnosod enwau lleoedd lleol mewn straeon ledled y DU) heb gynhyrchu newyddion/gwybodaeth lleol yn cael ei ystyried yn ddull dilys o gyflawni gofynion o ran newyddion lleol". Er y gallai fod yn dderbyniol o bryd i'w gilydd i roi gwybod am newyddion cenedlaethol neu newyddion rhwydwaith, yn enwedig lle mae gan straeon gysylltiad lleol neu eu bod yn berthnasol i gymuned leol, ni ddylai bwletinau newyddion fel arfer gynnwys straeon cenedlaethol neu straeon rhwydweithiol gydag ychydig neu ddim lleoleiddio. Fel y dywedasom yn y Datganiad, "Ein pryder fyddai gwasanaeth lleol yn mynd ati'n rheolaidd i roi gwybod am y newyddion cenedlaethol heb fawr ddim mewnbwn lleol, yn enwedig os oedd hynny'n ymddangos yn ddewis rhatach na gohebu'n lleol".[8]
- Mewn perthynas â newyddion lleol 'ysgafnach': "Gall newyddion lleol gynnwys straeon am chwaraeon lleol, ond ni ddylai'r straeon hyn fod yn brif elfen newyddion.  Yn yr un modd, gall straeon am adloniant neu gynnwys lleol 'ysgafnach' fel 'calendr digwyddiadau' fod yn berthnasol yn lleol, ond ni ddylai'r straeon hyn fod yn brif elfen bwletinau nac yn disodli newyddiaduriaeth leol". Ein safbwynt o hyd yw y dylai newyddion ar wasanaethau teledu lleol fod yn seiliedig ar newyddiaduraeth, ac na ddylai mathau 'ysgafnach' o newyddion, fel adloniant a chwaraeon, fod yn brif elfen mewn rhaglenni newyddion lleol fel mater o drefn.[9]
- Mewn perthynas â newyddion lleol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf: "Dylai newyddion lleol fod o ansawdd uchel, yn berthnasol, yn amserol ac yn gywir...Dylai gorsaf fod yn gallu ymateb yn brydlon ar yr awyr i ddigwyddiadau mawr sydd wedi digwydd yn lleol. Dylai bwletinau adlewyrchu diddordebau a phryderon y rheini sy'n byw yn yr ardal. Dylai straeon newyddion lleol fod yn gyfoes a dylid eu diweddaru'n rheolaidd."  Nid yw hyn yn golygu ein bod ni'n disgwyl i drwyddedeion gynhyrchu cynnwys newyddion newydd drwy gydol y dydd i gyflawni eu cwota. Fel y dywedasom yn ein canllawiau, byddai pedwar bwletin newyddion 15 munud yn cyfrif fel awr o newyddion sy'n cael eu darlledu, ar yr amod eu bod yn cael eu diweddaru drwy gydol y dydd.[10]  Ar y llaw arall, nid yw'n ddigonol ailadrodd straeon o ddiwrnodau blaenorol, nac ychwaith newid trefn straeon heb ddiweddaru nac adnewyddu'r cynnwys.  Pan fydd hyn yn digwydd, mae'n annhebygol y byddem yn ystyried bod pob ailddarllediad yn cyfrif fel cwota materion cyfoes a newyddion lleol sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf.
- Roedd ein canllawiau'n nodi y dylai newyddion lleol fod o ansawdd uchel, ac yn pwysleisio pwysigrwydd adroddiadau newyddion a newyddiaduraeth leol.  O ystyried hyn, ni all ymrwymiadau rhaglennu mewn perthynas â chynnwys newyddion lleol gael eu cyflawni'n bennaf gan sgriniau gwybodaeth a newyddion ar waelod y sgrin sy'n cynnwys penawdau newyddion lleol, gwybodaeth am y tywydd, neu wybodaeth am draffig.

[8] Gweler paragraffau 6.22, 6.23 a 6.30 ar dudalennau 67-69 y Datganiad
[9] Gweler paragraffau 6.18-6.19, 6.24-6.25 a 6.30 ar dudalennau 67-69
[10] Gweler paragraff 6.31 a 6.34 ar dudalen 69

## Amserlennu newyddion lleol

Gall ymrwymiadau rhaglennu fynnu bod trwyddedeion yn darlledu newyddion lleol yn ystod oriau brig, ac mae ein canllawiau'n tynnu sylw at y ffaith y dylai cynnwys lleol gael ei ddarlledu ar adegau pan mae'r gynulleidfa'n fwy tebygol o fod yn gwylio. Fel y dywedasom yn y Datganiad:

> *'prif ddiben y gwasanaethau lleol hyn yw darlledu rhaglenni lleol, a byddai'n mynd yn groes i nod y polisi cyhoeddus petai'r rhan fwyaf o raglenni lleol, neu'r holl raglenni lleol, yn cael eu hamserlennu pan fo'r lefelau gwylio ar eu hisaf, a rhaglenni rhwydwaith neu genedlaethol yn cael eu hamserlennu pan fo'r lefelau gwylio ar eu huchaf.'*[11]

Mae hyn yn arbennig o wir yn achos newyddion lleol lle byddem, fel y nodwyd, yn disgwyl ei weld wrth galon gwasanaethau teledu lleol. Felly, hyd yn oed os nad yw'r drwydded yn pennu oriau darlledu penodol ar gyfer cwota newyddion lleol y trwyddedai, ni fyddem fel arfer yn ystyried ei bod yn briodol i drwyddedeion fodloni hyn drwy ddarlledu cynnwys o'r fath dros nos (h.y. rhwng 00:00 a 06:00).

## Cynnwys lleol arall

Fel y dywedasom yn y Datganiad, rydym yn cydnabod bod mathau eraill o gynnwys lleol yn gallu bod yn bwysig o ran darparu gwasanaeth sy'n diwallu chwaeth, diddordebau ac anghenion y gynulleidfa leol, a gall hyn fod yn arbennig o wir mewn rhai ardaloedd, o ystyried yr amrywiaeth o wasanaethau amgen sydd ar gael.[12]

Fodd bynnag, pan fydd trwyddedeion yn dewis cynnwys rhaglenni lleol i fodloni eu hymrwymiadau rhaglennu, dylent ystyried meini prawf statudol L-DTPS ac ystyried a fydd y cynnwys dan sylw yn cyfrannu at eu cyflawni. Er enghraifft, ni fyddem yn disgwyl y byddai rhaglenni archif gan ddarlledwyr eraill yn cyfrif tuag at ymrwymiadau rhaglennu. Er mwyn ystyried darlledu cynnwys am y tro cyntaf yn ystod 'oriau o raglenni lleol bob dydd/wythnos', byddem yn disgwyl i raglenni fod wedi cael eu gwneud neu eu comisiynu gan neu ar gyfer yr L-DTPS perthnasol, a heb gael eu dangos ar y teledu yn y Deyrnas Unedig o'r blaen. Hefyd, ni fyddem yn rhagweld y byddai rhaglenni archif yn cyfrannu at gyflawni'r meini prawf statudol, o ystyried y dylai gwasanaethau fod y gwneud y canlynol:

- ehangu neu fod yn debygol o ehangu'r ystod o raglenni teledu sydd ar gael i wylwyr yn yr ardal;
- cynyddu neu fod yn debygol o gynyddu nifer ac ystod y rhaglenni sy'n ymwneud â'r ardal neu'r gymdogaeth honno, neu sy'n cael eu creu yno;
- darparu cynnwys nad yw ar gael fel arall drwy wasanaeth rhaglenni teledu digidol sydd ar gael ledled y DU.[13]

Roedd ein hymarfer monitro hefyd yn nodi bod rhai trwyddedeion yn cynnwys cyd-ddarllediadau o ffrydiau radio lleol gyda chynnwys gweledol fel rhan o'u cynnwys lleol. Ni fyddai'n briodol i drwyddedeion ddefnyddio hyn fel y prif ffordd o gyflawni eu hymrwymiadau rhaglennu, a dim cyfran

[11] Paragraff 6.38, tudalen 70
[12] Paragraff 6.25 ar dudalen 68 y Datganiad.
[13] Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd modd defnyddio cynnwys ar-lein nad yw wedi cael ei ddarlledu o'r blaen er mwyn cynhyrchu cynnwys lleol, ar yr amod bod trwyddedeion wedi'u bodloni eu hunain bod y cynnwys yn cyd-fynd â meini prawf statudol L-DTPS.

fach o’r rhaglenni lleol maent yn eu cynnig y dylai’r rhain fod. Pan maent yn gwneud hyn, rydym yn disgwyl i drwyddedeion eu bodloni eu hunain bod y cynnwys yn cyd-fynd â’u hymrwymiadau rhaglennu a’r fframwaith rheoleiddio; er enghraifft drwy ystyried a yw’r ffrwd radio yn cael ei hategu gan gynnwys gweledol amrywiol fel ei fod yn cynyddu neu’n ehangu’r amrywiaeth o raglenni teledu sydd ar gael i wylwyr yn yr ardal leol, neu o’i chwmpas, yn barhaus.

## Dull Ofcom o ddelio â chyflawni’r Ymrwymiad Rhaglennu

Bydd y graddau y mae trwyddedeion wedi cydymffurfio â’u hymrwymiadau rhaglennu yn berthnasol i’r broses adnewyddu sydd ar y gweill; o ystyried mai’r bwriad yw y bydd yn ofynnol i Ofcom ystyried perfformiad y trwyddedai, a dim ond adnewyddu eu trwydded os yw’n fodlon y bydd y trwyddedai’n bodloni ei rwymedigaethau rheoleiddiol yn ystod cyfnod y drwydded nesaf. O ganlyniad, mae’n bwysig bod trwyddedeion yn gwneud yn siŵr eu bod yn cyflawni eu hymrwymiadau rhaglennu fel y nodir yn eu trwyddedau. Yn gyffredinol, mae cwotâu’n cael eu gosod yn wythnosol drwy gydol y flwyddyn. Fel arfer, rydym yn monitro’r cwotâu hyn drwy ein proses datganiadau blynyddol, lle mae trwyddedeion yn adrodd ar nifer yr oriau o raglenni lleol a chynnwys newyddion a materion cyfoes lleol (yn ystod oriau brig a’r oriau tawel) a ddarlledwyd yn ystod y flwyddyn galendr flaenorol. Mae cyfartaleddu’r cwotâu wythnosol dros y flwyddyn yn rhoi llawer o hyblygrwydd i drwyddedeion o ran sut maent yn amserlennu eu cynnwys lleol. Fodd bynnag, mae’n rhaid i drwyddedeion sicrhau eu bod yn bodloni eu cwota wythnosol cyfartalog yn ystod y flwyddyn (ac ni fyddem yn disgwyl cyfnodau hir o amser heb fawr ddim neu ddim rhaglenni lleol o gwbl), a’u bod yn gallu profi hynny i Ofcom. Byddem yn disgwyl i drwyddedeion gadw cofnod o’r cynnwys lleol maent wedi’i ddarlledu bob wythnos, yn enwedig pan mae llawer o amrywiaeth yn amserlen y trwyddedai. Bwriad hyn yw helpu trwyddedeion i fonitro sut maent yn cyflawni, neu ddim yn cyflawni, yn erbyn eu cwotâu cynnwys lleol, er mwyn iddynt allu gwneud addasiadau i’w hamserlen i wneud iawn am unrhyw ddiffyg mewn mannau eraill a dangos i Ofcom sut maent wedi gwneud hynny os oes angen.